*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y rhagolygon gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, ar 31 Mawrth 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cymeradwywyd y gofyniad cyllideb net gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £48.322m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn capio gofyniad y gyllideb ar £48.322m, cymeradwyodd yr Awdurdod nifer o fesurau anghylchol, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

3 Yn y flwyddyn gyfredol, mae cyllid o £0.227m wedi'i dderbyn gan yr awdurdodau lleol fel ychwanegiad Grant SCAPE, oherwydd cyllid rhannol drwy'r ardoll sydd wedi'i gynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25. Yn ogystal, derbyniwyd grant o £0.208m gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pwysau cyflog yn ystod 2024/25.

4 Y sefyllfa alldro a ragwelir, yw tanwariant o £0.330m. Mae hyn yn ystyried yr holl wariant, incwm, a symudiadau cynlluniedig i gronfeydd wrth gefn ac ar gyfer eitemau unwaith yn unig gan gynnwys gostyngiadau mewn costau ar gyfer rhwydwaith gwasanaeth argyfwng cenedlaethol (Firelink).

5 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb gyfalaf 2024/25 o £5.676m ar 22 Ionawr 2024. Yn ogystal, mae cyllid treigl o £1.110m o flynyddoedd blaenorol. Mae'r rhaglen gyfalaf yn profi llithriad mewn cynlluniau, ac erbyn diwedd mis Mawrth 2025, rhagwelir y bydd y gwariant yn £3.450m, gyda gofyniad i dreiglo cyllid o £2.226m.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **nodi'r blaenamcan refeniw ac alldro drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 fel y manylir yn yr adroddiad;**
ii) **nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, tariffau, a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi; a**
iii) **cymeradwyo'r symudiad i/o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r gronfa gyffredinol.**

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

**CEFNDIR**

8 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £48.322m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

9 Wrth bennu'r gyllideb, cymeradwyodd yr Aelodau hefyd ystod o fesurau anghylchol sy'n angenrheidiol i gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2024/25, a oedd yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

10 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £5.676m i'r gweithgor Craffu ar y gyllideb a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2034 yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024 a'i chadarnhau gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

11 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

**GWYBODAETH**

**Y GYLLIDEB REFENIW**

12 **Cyflog:** Mae costau gweithwyr yn cynrychioli dros 70% o'r gwariant gros ac mae cyllideb staffio 2024/25 yn £35.430m, gan gynnwys mesurau a gymerwyd wrth osod y gyllideb i gynnwys gwariant o fewn y ffigur a gymeradwywyd. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bryd hynny fod y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer yr holl staff yn dal i fynd rhagddynt.

13 Roedd y broses o osod y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog ar gyfer 2024/25 yn 4% ar gyfer yr holl staff. Canlyniad dyfarniad cyflog Ebrill 2024 ar gyfer staff llywodraeth leol oedd cynnydd o £1,290 ar bwynt cyflog 2 i 43 y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) yn gynhwysol, a 2.5% ar bob pwynt cyflog uwchlaw 43.

14 Cafodd dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ei setlo ym mis Mai 2024 a chadarnhawyd bod 4% wedi'i dderbyn o 1 Gorffennaf 2024 ymlaen. Gweithredwyd newidiadau i strwythur tâl cadw'r system dyletswydd ar alwad o 1 Ionawr 2025, gan gynyddu'r ffi cadw 50% sy'n bwysau cost blwyddyn lawn o tua £1m.

15 **Costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau:** Mae'r rhagolygon ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cyfrif am gostau hysbys ac unrhyw ostyngiadau mewn gwariant gan gynnwys effaith yr her gyfreithiol lwyddiannus mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith gwasanaeth argyfwng cenedlaethol (Firelink).

16 **Incwm:** Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, derbynnir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan grantiau, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi elwa ar incwm ychwanegol o secondiadau a grant untro gan Lywodraeth Cymru i gefnogi chwyddiant cyflog ar gyfer 2024/25 ac addysg ynghylch y cyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr yng Nghymru. Derbyniwyd cyllid ychwanegol o £0.227m hefyd gan awdurdodau lleol ar gyfer cyllid SCAPE i'w drosglwyddo a gafodd ei eithrio o'r broses o bennu'r gyllideb oherwydd ansicrwydd ynghylch y cyllid.

17 **Cost refeniw cyfalaf:** Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf.

## RHAGOLWG ALLDRO REFENIW AR GYFER 2024/25

18 Mae'r adroddiad yn rhagweld tanwariant o £0.330m, sy'n cyfateb i 0.68% o'r gyllideb. Mae'r dadansoddiad i'w weld isod.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiad (£m) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 35.430 | 34.280 | (1.149) | -3.24% |
| Adeiladau | 3.530 | 3.386 | (0.183) | -4.07% |
| Trafnidiaeth | 1.259 | 1.222 | (0.038) | -2.98% |
| Cyflenwadau | 6.622 | 6.565 | (0.057) | -0.85% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.363 | 0.402 | 0.038 | 10.71% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2.989 | 2.890 | (0.099) | -3.32% |
| **Is-gyfanswm Cyflogau ac Nad yw'n ymwneud â Chyflogau** | **50.193** | **48.745** | **(1.448)** | **-2.88%** |
| Incwm | (0.946) | (1.576) | (0.630) | 66.59% |
| Ardollau | (48.322) | (48.549) | (0.227) | 0.47% |
| **Is-gyfanswm Incwm** | **(49.268)** | **(50.125)** | **(0.857)** | **1.74%** |
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (0.924) | 1.051 | 1.975 | -213.75% |
| **Rhagolwg Alldro** | **0** | **(0.330)** | **(0.330)** | **-0.68%** |

Tabl 1: Rhagolwg Alldro 2024/25

## COSTAU GWEITHWYR

19 Mae costau gweithwyr yn elfen sylweddol o'r gyllideb (70%) ac yn cynnwys cyflog, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau gweithwyr, fel gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Y gwariant cyffredinol a ragwelir ar gyfer costau gweithwyr yw £34.287m, sy'n cynrychioli tanwariant o £1.149m.

20 Mae ymdrechion i gynyddu nifer y diffoddwyr tân system dyletswydd ar alwad (RDS) yn parhau er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd a'u cynnal. Ar adeg pennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25, roedd 474 o bersonél y system dyletswydd ar alwad, a gwnaed darpariaeth i gynyddu capasiti'r system dyletswydd ar alwad drwy gynnydd o 30 ychwanegol ar gost o £0.413m. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf i wella capasiti wrth gefn a darparu'r cyflenwad y mae mawr ei angen. Fodd bynnag, fel y dangosir yn y tabl isod, mae hyn wedi parhau i fod yn her sylweddol, gyda niferoedd gwirioneddol yn gostwng yn is na'r gyllideb wreiddiol yng nghyfnodau cynnar y flwyddyn ariannol. Yn ystod mis Medi 2024, yn dilyn recriwtio llwyddiannus, mae'n braf nodi bod y niferoedd wedi cynyddu, er bod tanwariant sylweddol yn y gyllideb lawn yn cael ei brofi.

| Dadansoddiad System Dyletswydd Ar Alwad | Cyllideb 2024/25 | Ebr-24 | Gor-24 | Med-24 | Rha-24 | Maw-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 504 | 459 | 465 | 487 | 492 | 490 |
| Cyfwerth ag amser llawn (FTE) | 408 | 365 | 367 | 385 | 386 | 367 |

Tabl 2: Dadansoddiad System Dyletswydd Ar Alwad 2024/25

21 Mae tanwariant y gyllideb yn staff y system dyletswydd ar alwad yn adlewyrchu anawsterau recriwtio a chadw, yn ogystal ag amrywiadau mewn cyflogau amrywiol, gan gynnwys ffioedd ymarferiadau, lwfansau hyfforddi, a gweithgarwch.

22 Mae'r FTE wedi gostwng yn Ch4 o'i gymharu â Ch3. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei briodoli i adolygiad cytundebol i sicrhau bod y ffioedd ar alwad yn cyd-fynd â'r oriau gwirioneddol a roddwyd. Yn ogystal, bu cynnydd mewn staff contract deuol, lle mae staff amser llawn yn cyflenwi ar gyfer y system dyletswydd ar alwad. Mae'r trefniant hwn fel arfer yn arwain at lai o oriau cadw, gan effeithio ymhellach ar y FTE.

23 O fewn y grŵp staff sy'n ymwneud â staff gweithredol amser cyflawn, bu nifer uwch na'r disgwyl o ymddeoliadau, gan arwain at swyddi gwag yn y gweithlu gweithredol. Mae mesurau recriwtio wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg hwn, er bod tanwariant yn cael ei weld. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i gynnal capasiti gweithredol a rhoi hyfforddiant, bu'n rhaid defnyddio goramser.

24 Mae'r adolygiad ac ailstrwythuro arfaethedig yr adran diogelwch tân wedi'i ohirio tan 2025/26 er mwyn caniatáu i gapasiti o fewn y criwiau gweithredol gael ei asesu. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi profi nifer o swyddi gwag corfforaethol arbenigol o fewn cynllunio corfforaethol, TGCh a fflyd. Mae'r rolau hyn yn parhau i fod yn hanfodol ond maent wedi cyfrannu at y tanwariant.

**COSTAU NAD YDYNT YN YMWNEUD Â CHYFLOGAU**

25 Rhagwelir y bydd tanwariant o £0.298m yn y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau, sy'n cwmpasu Adeiladau, yr Adran Gludiant, Cyflenwadau, Taliadau Trydydd Parti, a Chyllid a Thaliadau Cyfalaf.

26 Mae gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn cael ei adolygu'n barhaus gan ddeiliaid y gyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod y blaenamcanion yn parhau i fod yn rhesymol ac yn ymgorffori'r holl wariant perthnasol. Mae'r rhagolwg yn cynnwys costau ychwanegol ar gyfer treuliau cerbydau (£0.078m), Offer Gwarchod Personol o'r stoc (£0.380m), a chynnydd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (£0.036m), tra bod arbedion o'r adolygiad o gontractau yn dod i £0.080m.

27 Mae'r gostyngiad mwyaf mewn costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau i'w weld o fewn adeiladau, lle mae costau ar gyfer cyfleustodau, yswiriant, a threthi busnes yn cael eu tanwario yn erbyn y gyllideb o £0.425m. Mae gostyngiad hefyd i'w weld mewn costau Diesel ac Olew gyda thanwariant o £0.057m. Mae hyn oherwydd bod yr Awdurdod yn elwa o amodau marchnad ffafriol ac apeliadau llwyddiannus yn erbyn gwerthoedd ardrethol ar gyfer trethi busnes cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r tanwariant hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gostau ychwanegol ar gyfer gwaith adeiladau a symud cyllid i gronfeydd wrth gefn.

28 Mae'r gyllideb TGCh wedi cyflawni arbedion costau ailadroddus o £0.526m ar gyfer Firelink a £0.206m ar gyfer BT One.

**INCWM**

29 Yn ogystal ag ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm a ragwelir o ffioedd, taliadau a grantiau, sy'n ymwneud yn bennaf â'r ad-daliadau ar gyfer adeiladau a rennir ag endidau eraill a chytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau gwahanol.

30 Mae'r Awdurdod wedi derbyn incwm gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu addysg i yrwyr sy'n mynd y tu hwnt i'r terfynau cyflymder 20mya a gyflwynwyd yn ddiweddar a chyllid grant i gefnogi pwysau cyflog ar gyfer 2024/25. Mae incwm ychwanegol hefyd wedi'i gydnabod ar ôl gwerthu cerbydau a throsglwyddwyd gweddill y balans o £0.227m ar gyfer SCAPE gan awdurdodau lleol.

**RHAGLEN GYFALAF**

31 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £5.676m ym mis Ionawr 2024, yr oedd £1.1m ohono yn gyllid treigl o 2023/24.

32 Oherwydd oedi parhaus, cyfanswm y gwariant cyfalaf hyd yma yw £3.086m, a rhagwelir y bydd y blaenamcan diwedd blwyddyn yn £3.450m.

33 Mae angen treiglo £2.26m o gyllid oherwydd oedi wrth gwblhau gwaith adeiladu. Mae manylion y cynlluniau yn atodiad 1.

**BENTHYCA**

34 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyca allanol, ond yn y tymor byr, mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn fenthyca mewnol.

35 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol lle mae hyn yn bosibl ar sail dros dro. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyca cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifir gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad allanol gan fod arian parod sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balans a llif arian yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio fel ateb dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, bydd angen newid y benthyca mewnol i fenthyca allanol.

36 Cymerodd yr Awdurdod fenthyciad tymor byr newydd o £5m gan awdurdod lleol ym mis Rhagfyr 2024, a oedd i'w ad-dalu ym mis Awst 2025, i dalu anghenion arian parod tymor byr tra'n edrych ar fenthyca hirdymor mwy fforddiadwy yn ystod 2025/26, fel y nodwyd ym mhapur strategaeth rheoli'r trysorlys ar gyfer 2025/26.

**DEFNYDDIO'R GRONFA GYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI**

37 Nod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi yng ngweithgareddau'r dyfodol ac i fod yn rhwyd ddiogelwch rhag heriau ariannol tymor byr o ganlyniad i alwadau i weithredu neu bwysau annisgwyl, megis tanau gwyllt.

38 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wedi clustnodi £7.398m o gronfeydd wrth gefn o 1 Ebrill 2024, sydd wedi'u cronni yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithriad mewn recriwtio a chyflawni prosiectau. Hefyd, mae cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u sefydlu er mwyn ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system, a gwelliannau i'r gwasanaeth.

39 Mae'r alldro dros dro yn tybio na fydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlynol wedi'u symud i gronfeydd wrth gefn naill ai oherwydd ansicrwydd ynghylch atebolrwydd yn y dyfodol neu i dalu costau untro na chwblhawyd yn ystod 2024/25:

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) |
|---|---|---|
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (0.924) | |
| • Amh. | | 0.000 |
| Symud i Gronfeydd Wrth Gefn: | 0.000 | |
| • Rhwydwaith gwasanaeth argyfwng cenedlaethol | | 0.526 |
| • Pensiwn | | 0.525 |
| • Costau untro ystadau* | | 0.330 |
| • Holmatro* | | 0.070 |
| **Cyfanswm** | **(0.924)** | **1.451** |

Tabl 3: Symudiadau i ac o gronfeydd wrth gefn

**Cafodd yr eitemau canlynol eu cynnwys o dan gostau adeiladau a chyflenwadau yn nhabl 1, oherwydd ansicrwydd ynghylch cyflawni cynlluniau ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'r ffigurau a gynhwysir yn nhabl 3 yn niferoedd dangosol a fydd yn cael eu mireinio yn ystod prosesau diwedd y flwyddyn.*

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. |

## Atodiad 1

| Adran | Enw/Disgrifiad y Prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|
| TGCh | Amnewid diwedd gorsaf symudol | £600,000 |
| Cyfleusterau | Systemau Gwresogi a Dŵr Poeth | £52,000 |
| Cyfleusterau | Systemau Gwresogi a Dŵr Poeth | £60,000 |
| Cyfleusterau | Amnewid Tŵr Hyfforddi Dur Gwaith | £300,000 |
| Cyfleusterau | Ail-doi @ Rhyl | £63,000 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio'r Tŷ Hyfforddi yn Glannau Dyfrdwy | £108,250 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio'r Tŷ Hyfforddi yn Wrecsam | £123,660 |
| Cyfleusterau | Gwresogi Llandudno | £150,000 |
| Fflyd/TGCh | Mesuryddion Llif Uwchraddio | £250,000 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio gorsaf | £250,000 |
| Cyfleusterau | Tanciau HVO | £300,000 |
| **Rollover** | | **£2,256,910** |